



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan
LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, MEDI'R 1^{AF} 2021**

Presennol: Cadeirydd: Maeres Penny Andow; Cyng. Laura Fielding; Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Claire Hughes; Cyng. Delohne Merrell; Dirprwy Faer Gyng. Christopher Jones; Cyng. Nia Jones; Cyng. Iolo Kars Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Christine Roberts

71. Croeso gan Gadeirydd y cyfarfod

72. Ymddiheuriadau am absenoldeb – Cyng. Rob Jewell; Cyng. Carol Gell;

Penderfynwyd derbyn a

chofnodi

73. Datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Bu i'r Cyng. A Hinchliff ddatgan diddordeb am eitem 12 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio CBSC ond bu iddo gadarnhau bod modd iddo aros yn y cyfarfod cyhyd â'i fod yn ymatal rhag cynnig sylwadau am y mater.

Bu i'r Cyng. C. Roberts, D Merrell, C. Jones ac A Hinchliff ddatgan diddordeb am eitem 10 fel aelodau o bwyllgor y Neuadd Gymunedol ond nid ydyn nhw'n elwa'n bersonol felly cytunwyd bod modd iddyn nhw aros yn y cyfarfod.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

74. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Doedd dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

75. Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod Gorffennaf yr 21^{ain} 2021 a'r Cyfarfod Arbennig ar Awst y 5^{ed} 2021

Roedd y cofnodion wedi'u rhannu dros e-bost eisoes ac wedi'u derbyn wedi'u darllen.

Materion yn codi, Gorffennaf y 1^{af} 2021: Eitem 84.8, bu Heddlu Gogledd Cymru'n ymchwilio i broblemau'n ymwneud â'r cob. Maen nhw wedi cysylltu gyda pherchennog preifat yr ardal i ofyn iddyn nhw am ddiogelu'r ardal yn briodol i atal pobl rhag ei ddefnyddio'n anghyfreithlon a chynnal partïon yno. Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain wrthi'n cydweithio i rybuddio am unrhyw bryderon ynghylch grwpiau sylweddol o bobl ifanc yn teithio i'r pentref. Mae'n debyg bod y cydweithio hyn yn effeithiol gan na chafodd unrhyw drafferthion eu cofnodi'r penwythnos diwethaf.

Awst y 5ed 2021, materion yn codi: Eitem 4, bu i deulu'r diweddar Jenna gysylltu gyda Chynghorydd Sir i ddweud eu bod yn dymuno cyfrannu tuag at y prosiect er cof am Jenna. Bu i fwyty Seagrass fynegi diddordeb mewn cymryd yr awenau dros y diffibriliwr. Bu i'r Clerc gysylltu i fynd rhagddi gyda'r broses i brynu'r diffibriliwr ond mae'n dal yn disgwyl am wybodaeth ynghylch y cyfarpar diogelwch. Y Clerc i alw cyfarfod i randdeiliad yn y dyfodol agos er mwyn gwneud trefniadau pellach.

Awst y 5^{ed} 2021, materion yn codi: Eitem 5, Mae'r gwaith yn Nant y Coed yn y fantol gan nad ydy Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymeradwyo cynlluniau CBSC i ail-adeiladu'r concriid yn sgil pryderon am gwrs y dŵr a llifogydd posib. Mae ond modd cynnal y gwaith yn ystod tymhorau penodol ac felly mae'r prosiect bellach wedi'i ohirio am y tro. Mae CBSC wrthi'n ail-osod cerrig ffiniol wrth wely'r afon, ond ni allan nhw gynnal y prif waith ar y llwybr. Bu sawl cyfarfod i geisio bwrw ati gyda'r gwaith ac mae'n debyg y caiff gwaith coed cyfatebol ei weithredu er mwyn agor yr ardal yn y tymor byrrach. Fel rhan o'r gwaith fe gaiff grisiau a rhodfeydd coed ar draws yr afon eu gosod er mwyn i deuluoedd allu mwynhau'r amgylchedd naturiol yno.

Mae pryder ynghylch hyn gan na fyddai mor hawdd i grwpiau bregus fanteisio arno ond fe gytunwyd, fel cyfaddawd, y byddai'n effeithiol yn y tymor byr. Mae CBSC yn ymchwilio i hyn ac yn llunio cynllun newydd a allai ymwneud â gwelliannau i'r maes parcio. Fe fyddai CBSC yn cyflwyno hysbyseb ar y cyfryngau cymdeithasol y mae modd i'w rhannu.

1. Oes modd inni fwrw golwg ar ddarpariaeth i rieni a phlant – mynediad i bramiau

2. Mae angen gofalu na chaiff y cyllid ei ddefnyddio ar fesurau dros dro pan fo'i angen ar gyfer gwaith diogelu hirdymor. Mae tîm CBSC yn credu y byddai'r mesurau dros dro yn cynnig dewis gwell ar gyfer y dyfodol a byddan nhw'n ceisio dod o hyd i gyllid pellach i gyflawni'r deiliant tymor hirach.

3. Bu i'r AS Robyn Millar grybwyll y gronfa levelling up – fyddai modd ystyried hon am brosiect mwy uchelgeisiol? Mae CBSC wrthi'n dwyn i ystyriaeth yr holl opsiynau cyllid ar hyn o bryd.

4. Mae mesurau dros dro yn gyfaddawd effeithiol ac amserol gan fod y gaeaf yn nesáu ac mae'n anoddach denu plant i'r awyr agored.

5 Estynnwyd diolch i'r Cynghorydd Sir am gyfathrebu gyda'r holl bartïon ac am rannu'r wybodaeth gyda'r Cyngor Tref

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Hughes Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

76. Trafod a chymeradwyo'r ceisiadau am grantiau cymunedol

Bu inni dderbyn un cais am grant gan Grŵp Bowlio Gwyrdd y Goron Llanfairfechan

Cais i osod CCTV yn y clwb i ddiogelu rhag fandaliaeth bellach. Byddai'r grŵp yn fodlon gydag unrhyw gyfraniad yn enwedig pe bai'n £500 neu'n uwch. Yn dilyn y drafodaeth fe gynigwyd cyfrannu £800 tuag at y prosiect.

Cynigwyd gan y Cyng. D Merrell Eiliwyd gan y Cyng. N Jones Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

77. Trafod a chymeradwyo adroddiad Llanfairfechan Cynaliadwy – dosbarthwyd cyn y cyfarfod

Bu i'r Clerc lunio'r adroddiad fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth yn dilyn rhyddhau'r Adroddiad IPCC ar Newid mewn Hinsawdd. Mae'r adroddiad yn galw am ddull ar y cyd i leihau tarthiadau CO2 a gofalu am yr amgylchedd. Byddai hyn, yn anochel, yn effeithio ar y ffordd y byddai Cyngor Tref Llanfairfechan yn datblygu eu gwaith yn y gymuned. Mae sawl prosiect eisoes yn ymwneud â thyfu a chynnaladwyedd yn Llanfairfechan a nod y ddogfen hon ydy hyrwyddo trafodaeth am ddwyn y prosiectau ar wahân hyn ynghyd o dan enw Llanfairfechan Cynaliadwy. Diben hyn yn ei dro fyddai:

- Cynnig dull ar y cyd ac sydd wedi'i ymchwilio'n drylwyr o ran arferion gwaith cynaliadwy
- Osgoi dyblygu a hyrwyddo dull mwy pwylllog i'r gwaith
- Datblygu'r cyfle i geisio am gyllid allanol i gefnogi gwaith gyda nodau ac amcanion eglur a fyddai'n fuddiol i'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Dyma'r argymhellion:

1. Cyngor Tref Llanfairfechan i ddefnyddio'r enw Llanfairfechan Cynaliadwy ar gyfer eu gwaith cynllunio cymunedol a datblygu'r brand fel teitl ymbarél ar gyfer ein holl waith cymunedol

2. Galw cyfarfod cychwynnol ym mis Medi 2021 gan wahodd yr holl randdeiliad i gyflwyno'u syniadau gerbron y bwrdd. Gofynnwn fod yr holl Gynghorwyr Tref yn mynychu'r cyfarfod i helpu lansio'r prosiect.

Cafodd yr adroddiad ei chymeradwyo'n ffafriol ac fe estynnwyd diolch i'r Clerc am gynnig yr wybodaeth.

Pwynt 1. Soniwyd bod yr Wythnos Fawr Werdd o Fedi'r 18^{fed} tan y 26^{ain} ac mae rhywun wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref eisoes i gynnal ambell weithgaredd. Ymysg y syniadau oedd Ffair Werdd gyda stondinau perthnasol, digwyddiad codi ysbwriel ac arddangosfa ffenest cysylltiedig yn y neuadd. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cynghorwyr i drefnu hyn a chydweithio gyda'r brand Llanfairfechan Cynaliadwy.

Pwynt 2. Gellir ehangu'r adroddiad i gynnwys ymchwil ar grwpiau polisi fel cylch gwaith amgylchedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Gallai'r adroddiad lunio dogfen weithredol y mae modd ei haddasu wrth i'r prosiect ddatblygu.

Pwynt 3. Ymholiad ynghylch y cynllun ailgylchu plastig meddal yn y Co-op. Clerc i holi a oes modd gosod bin ychwanegol yn y neuadd.

Pwynt 4. Bu i grŵp Bioamrywiaeth Llanfairfechan gysylltu gyda ni i drafod eu pryderon am y goleuadau stryd LED newydd. Mae'n bosib y buasai modd casglu gwybodaeth yn ystod yr Wythnos Fawr Werdd ac yna atgyfeirio'r mater i'w drafod gyda CBSC?

Y Clerc i fwrw iddi gyda'r prosiect gan gynnal cyfarfod cyntaf yn ystod yr Wythnos Fawr Werdd a chydweithio gyda phartneriaid a chynghorwyr i ddatblygu gweithgareddau.

Fel rhan o'r eitem hwn fe drafodwyd meinciau cyhoeddus hefyd. Mae gordyfiant sylweddol ar lwybr y cob ac mae'r meinciau wedi'u difrodi. Soniwyd bod gwaith atal llifogydd ar y gweill yn yr ardal felly dylid mynd ati i glirio'r ardal neu osod cyfarpar newydd unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Mae meinciau eraill yn y pentref wedi'u difrodi hefyd ac mae angen eu trwsio. Cyfrifoldeb CBSC ydy hyn mewn gwirionedd ond fe allai'r Cyngor Tref benderfynu gosod meinciau newydd a mwy atyniadol i ddod ag ychydig o liw i'r pentref. Fe drafodwyd nifer o opsiynau, ac fe soniwyd bod llawer o deuluoedd yn cysylltu i gynnig meinciau coffa am eu hanwyliaid. Cytunwyd y dylid ychwanegu hyn at yr agenda nesaf a byddai'r cynghorwyr a'r Clerc yn casglu gwybodaeth a syniadau i'w trafod.

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. D Merrell

Pawb yn gytŷn Penderfynwyd

78. Trafod a chymeradwyo adroddiad y prosiect Byw'n Dda / Living Well – dosbarthwyd cyn y cyfarfod Mae'r adroddiad hwn yn trafod y prosiect iechyd a lles fyddai'n lansio yn ystod Medi 2021. Yn dilyn cais cyllid llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am £11,000.00, mae'n rhaid i Gyngor Tref Llanfairfechan gynnig nifer o farchnadoedd bwyd a chrefftwyr a sesiynau cefnogaeth busnes yn Llanfairfechan cyn Mawrth 2022. Mae amser yn brin felly mae'r tîm staffio wedi mynd rhagddi i ddatblygu cynlluniau drafft ar gyfer y prosiect:

Hydref	Dyddiadau ac amseroedd
Llwybr Pwmpenni Calan Gaeaf a digwyddiad ffeirio Planhigion a Chynnyrch	Dydd Sadwrn, Hydref y 30 ^{ain}
Sesiwn Cynllun Cymunedol Llanfairfechan	Gyda'r Nos i'w gadarnhau
Tachwedd	
Arddangosfa Tân Gwylt Llanfairfechan a Marchnad Grefftau	Dydd Gwener, Tachwedd y 5ed am 6yh
Sul y Cofio Llanfairfechan	Dydd Sul, Tachwedd y 14eg yn gadael y neuadd am 10:30yb
Sesiwn Cynllun Cymunedol Llanfairfechan	Gyda'r Nos i'w gadarnhau
Penwythnos y Nadolig Llanfairfechan	
Groto Siôn Corn y Clwb Rotari	Dydd Sadwrn, Tachwedd yr 20fed
Ffair Nadolig Cymunedol yn y neuadd	Dydd Sadwrn, Tachwedd yr 20fed
Marchnad fwyd a chrefftau'r Nadolig	Dydd Sul, Tachwedd yr 21ain
Bydd y swyddfa ar gau ar gyfer gwyliau'r Nadolig o ddydd Gwener, Rhagfyr yr 17eg a byddwn yn ail-agor ar ddydd Llun, Ionawr y 3ydd 2022	
Ionawr	
Marchnad Fwyd a Chrefftau'r Neuadd Gymunedol	Dydd Sul olaf y mis
Sesiwn Cynllun Cymunedol Llanfairfechan	Gyda'r Nos i'w gadarnhau
Chwefror	
Marchnad Fwyd a Chrefftau'r Neuadd Gymunedol	Dydd Sul olaf y mis
Wythnos Busnes Llanfairfechan	
5 x sesiynau rhwydweithio a hyfforddiant	I'w gadarnhau
Sesiwn Cynllun Cymunedol Llanfairfechan	Gyda'r Nos i'w gadarnhau
Mawrth	
Llanfairfechan yn Dathlu	
Grwpiau Cymunedol yn arddangos yn y neuadd	Dydd Sul, Mawrth yr 28 ^{ain}
Marchnad Bwyd Stryd a Chrefftau	Dydd Sul, Mawrth yr 28 ^{ain}
Sesiwn Cynllun Cymunedol Llanfairfechan	Gyda'r Nos i'w gadarnhau

Bu i'r adroddiad argymhell y canlynol:

1. Cyngor Tref Llanfairfechan yn dwyn i ystyriaeth y cynllun digwyddiadau ac yn cymeradwyo'r amserlen ar gyfer 2021/22
2. Cynghorwyr Tref i ddwyn i ystyriaeth sut yr hoffan nhw fod ynghlwm a pha sesiynau y gallan nhw eu cefnogi.

Estynnwyd diolch i'r tîm staff am weithio ar y cynlluniau. Awgrymwyd y dylid cyfuno'r Diwrnod Pobl Hŷn ar Hydref y 3^{ydd} gyda'r prosiect ac fe gafod yr argymhellion eu cymeradwyo. Mae'n bosib y bydd yr amserlen yn newid yn ystod y cyfnod cynllunio felly dydy'r dyddiadau heb eu cadarnhau.

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. Fielding Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

79. Trafod a chymeradwyo'r adroddiad am yr Adolygiad Staffio – dosbarthwyd cyn y cyfarfod

Cafodd yr adroddiad ei baratoi'n barod ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Staffio ar Fedi'r 9fed. Fodd bynnag, roedd y Clerc yn dymuno sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn ymwybodol o'r cynigion ac yn cytuno y dylid mynd rhagddi gyda'r gwaith. Ym mis Gorffennaf 2021, bu i'r Cyngor Tref dderbyn newyddion am gyllid newydd o £11,000 i hybu ein prosiectau i ddatblygu cynllun cymunedol a marchnadoedd bwyd a chrefftau rheolaidd. Bydd y cyllid yn fodd inni gynyddu oriau gwaith y Swyddog Prosiect a'r Gweithiwr Amgylcheddol i gefnogi'r datblygiad hwn. Yn sgil y newyddion da, mae angen adolygu llwythi gwaith y staff ac fe luniwyd yr adroddiad i gynorthwyo Pwyllgor Staffio Cyngor Tref Llanfairfechan i ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer 2021/2022. Bu i rôl y Swyddog Prosiect esblygu dros amser ac un agwedd sylweddol a ddaeth yn amlwg oedd union werth gweithiwr proffesiynol cyfathrebu a marchnata fel rhan o'r tîm. O ganlyniad, mae'n debyg y buasai modd awgrymu teitl mwy priodol ar gyfer y rôl sef Swyddog Cyfathrebu a Phrosiect. Mae'n debyg y byddai'r Pwyllgor Staffio yn dymuno dwyn hyn i ystyriaeth wrth i'r gwaith ddatblygu. Dyma'r cynllun arfaethedig:

- Cynyddu oriau'r Gweithiwr Amgylcheddol i 30 awr yr wythnos
- Cynnig 5 awr ychwanegol i'r Swyddog Cyfathrebu a Phrosiectau Cymunedol = 15 awr ar ran y Cyngor Tref a 5 awr yn cyflawni gwaith marchnata ar gyfer Neuadd Gymunedol y Dref

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Hughes Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

80. Trafod a chymeradwyo cyfarfodydd hybrid a chyfarpar cyfryngau

Bu'r Neuadd Gymunedol yn ystyried prynu cyfarpar ar gyfer cyfarfodydd hybrid ar gyfer y neuadd a bu i'r Clerc gynnig y diweddaraf o ran y cynnydd. Bu trafodaeth bellach ac fe gynigwyd y mae'n debyg y byddai'r Cyngor Tref mewn gwell sefyllfa i brynu a rheoli'r cyfarpar. Bu'n anodd iawn caffael tri dyfynbris ar gyfer y gwaith yn sgil problemau cyfredol gyda chyflenwyr. Fe dderbyniwyd un dyfynbris am y cyfarpar canlynol:

- Dangosydd Rhyngweithiol 75" Newline Atlas
- Cyfarpar codi sgrin trydanol Loxit Hi-Lo 750 y mae modd addasu ei uchder
- Powercool Rack mount UPS
- Troli cyfarpar codi sgrin trydanol Loxit Hi-Lo 750 y mae modd addasu ei uchder
- Modiwl Newline Intel i5 OPS - 8GB Ram, 256GB SSD

Is-gyfanswm £4,501.00
TAW £900.20
Cyfanswm £5,401.20

Roedd y dyfynbris o Amazon gan y clerc yn gyfanswm o dros £5000 heb y costau gosod felly mae hyn yn bris teg. Cynigwyd bod y Cyngor Tref yn prynu'r cyfarpar ac yn llunio'r gwaith papur priodol i ganiatáu i grwpiau ddefnyddio'r cyfarpar am dâl, un ai drwy gyflwyno blaendal neu godi tâl llogi. Clerc i fynd rhagddi gyda'r cynnig ac adrodd yn ôl dros e-bost.

Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. D Merrell Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

81. Derbyn adroddiadau cyllid mis Medi a chymeradwyo taliadau 2021

Adroddiad Cyllid ac adroddiad Arian Mân

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. D Merrell Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Taliadau Staff, cyflogau Medi, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a'r gweithwyr hyd yn hyn – £3800

1. Ad-daliad ZOOM (talwyd Mawrth y 25^{ain}) Clerc y Dref – 143.88
2. Tâl Pwll Padlo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - £1883.25
3. Sgipiau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - £552.00
4. Llungopiwr Siemens o Fedi tan Ragfyr – 302.40
5. Cyfieithiadau Menter Iaith - £209.69

6. Gwobrau Bwganod Brain Cawthreys - £270.00 adolygol

7. British Gas Neuadd Pendalar - £1000 adolygol

8. Adloniant diwrnod hwyl Funky Octopus - £650.00

Fe dderbyniwyd y taliadau ac roedd pawb yn gytûn

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Hughes

Pawb yn gytûn

Penderfynwyd

derbyn a chofnodi

Adroddiad Cyllid ac Arian Mân – Fe'i dosbarthwyd eisoes ac wedi'i dderbyn wedi'i ddarllen

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. D Merrell

Pawb yn gytûn

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

82. Cafodd y Rhestr Weithrediadau ei drafod fel eitem ychwanegol ar yr agenda - 11a

Eitem 4 Maes Parcio'r Promenâd – fe dderbyniwyd e-byst gan y tîm ond does yna ddim cynnydd cyfredol o ran gwaith adfer dros dro neu'r prif gynllun. Awgrymwyd estyn gwahoddiad i dîm CBSC i'n cyfarfod nesaf i drafod y cynnydd. Ein dealltwriaeth ni ydy mae'n bosib y byddai CBSC wedi clywed rhywbeth am y cyllid llifogydd erbyn hynny. Fe hoffai'r cynghorwyr drafod ymarfer ymgynghori gyda'r preswylwyr ar gyfer cynlluniau'r maes parcio yn enwedig yr ardal laswelltog. Awgrymwyd na ddylid cynnwys yr ardal laswelltog yn y maes parcio gan fod teuluoedd yn ei defnyddio'n aml fel man picnic. Yn wir, roedd rhai o'r farn y dylid ymdrechu i gau'r ardal i atal y broblem gyfredol gyda pharcio. Cafodd ei ddadlau'n gryf mai'r preswylwyr ddylai benderfynu ar y cynllun terfynol ar gyfer y maes parcio. Byddai hyn hefyd, o bosib, yn datrys penbleth y Cyngor Tref ynghylch cyflwyno nawdd ar gyfer yr ardal neu drwyddedau parcio i breswylwyr. Y Clerc i e-bostio CBSC.

Cynigwyd gan y Cyng. D Merrell Eiliwyd gan y Cyng. N Jones

Pawb yn gytûn

Penderfynwyd

derbyn a chofnodi

Eitem 11 Tipio Anghyfreithlon ar Ffordd yr Orsaf. Clerc i drefnu'r cyfarfod safle cyn gynted â phosib i fwrw iddi gyda'r broses o osod y cyfarpar a'r arwyddion

Eitem 12 Ymchwiliad yr A55 – bydd y gwaith yn cychwyn ar ddydd Mawrth, Medi'r 21^{ain}. Mae'r gwrthwynebwyr wrthi'n paratoi eu datganiadau ar gyfer yr ymchwiliad a chafodd sawl problem eu codi a wnaeth gyfrannu tuag at ddatganiad o wrthwynebiadau'r Cyngor Tref.

Eitem 25 Mae Tân Gwylt wedi'u trefnu dros dro ar gyfer Tachwedd y 5ed, ond mae'n bosib y byddai'r cyfyngiadau Covid-19 newydd yn effeithio ar hyn. Rydym yn ceisio caffael tân gwylt distaw ac os byddwn ni'n llwyddo i ddod o hyd i rai, bydd angen inni drefnu cerddoriaeth i gyd-fynd gyda nhw.

Eitem 25 Rydym wedi archebu torchau yn barod at Sul y Cofio. Rydym yn gobeithio y byddai grwpiau'n gallu cyfrannu tuag at y gost eleni ond mae'r Cyngor Tref yn ymroi i gynorthwyo unrhyw grŵp sydd wedi'u heffeithio gan Covid-19 drwy eu pot grantiau cymunedol s137. Bydd angen gwneud penderfyniad yn fuan ynghylch a fyddai gwasanaeth gan gydymffurfio gyda chanllawiau Covid-19 a bydd angen mynd ati i baratoi'n fuan.

83. Trafod materion cynllunio:

0/48824 Bryn Ffawydd Bryn Ffawydd, Y Clôs Llanfairfechan LL33 0AG

Dim arsylwadau i'w cofnodi – Byddai'r cynghorwyr yn disgwyl bod y broses yn cydymffurfio gydag argymhellion y swyddog coed

0/48786 Grey Gables Y Clôs, Llanfairfechan Conwy LL33 0AG

Dim arsylwadau – Roedd y cynghorwyr yn fodlon iawn gyda'r wybodaeth a'r manylion. Byddai'r cynghorwyr yn disgwyl bod y broses yn cydymffurfio gydag argymhellion y swyddog cadwraeth.

84. Derbyn gohebiaeth

Yn ystod y pandemig, fe gaiff unrhyw ohebiaeth ei anfon yn uniongyrchol at y Cynghorwyr Tref oherwydd y pwysau ynghlwm â chyfarfodydd ar-lein. Mae modd ychwanegu unrhyw faterion at yr agenda.

Eitem 1 llythyr gan breswylwyr ynghylch cydnabod hirwasanaeth yn Llys y Coed. Mae Clerc y Dref wedi cofnodi hyn a bydd yn adrodd ymhellach pan fo'n briodol

85. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau

1 Digwyddiad ffeirio llyfrau – roedd yn llwyddiant ysgubol a llawer o ddiddordeb. Dywedodd y preswylwyr ei fod yn braf gweld y gazebo y tu allan i'r neuadd ac roedd llawer wedi'u synnu gan y cysyniad oherwydd eu bod yn meddwl y buasai'n rhaid iddyn nhw dalu. Cafodd y Swyddog Prosiect ei chanmol am ei gwaith yn paratoi ar gyfer y digwyddiad a'i gwaith ar y diwrnod.

2 Bu Diwrnod Chwarae Llanfairfechan yn llwyddiannus dros ben gan inni gyfrif dros 80 o blant yn y digwyddiad yng Ngerddi Victoria. Bu'r digwyddiad Ffeirio Teganau ar y diwrnod hefyd yn llwyddiant ond roedd yn weddol ddistaw. Roedd y plant wnaeth fynychu ar ben eu digon gyda'u teganau newydd. Soniwyd bod Funky Octopus yn atyniad gwych i'r diwrnod a bu iddyn nhw weithio'n ddiwyd trwy'r dydd i gynnig adloniant. Bu inni hefyd estyn diolch i Wasanaeth Ieuencid Conwy a'r bobl ifanc wnaeth helpu i feirniadu a chynnal y gêm parasiwt. Doedd dim llawer wedi cystadlu yn y gystadleuaeth llwybr bwganod brain ac fe awgrymwyd efallai'r flwyddyn nesaf y buasai modd cynnal y digwyddiad ar y thema picnic y tedis. Y Clerc i ymchwilio ac adrodd yn ôl.

3 Presenoldeb y Faeres a'r Dirprwy Faer mewn digwyddiadau – bu i'r Faeres fynychu'r digwyddiad codi arian ar gyfer yr Ambiwylans Awyr a digwyddiad gadael Dr Kath. Yn ogystal bu iddi gynnal Bendith i gwpl wnaeth briodi'n ddiweddar. Bu i'r Dirprwy Faer ymweld â Chylch Chwarae Llanfairfechan i weld eu mynediad a'u manau chwarae tu allan newydd.

86. Derbyn pryderon brys a chanmoliaethau

1 Yn dilyn ymholiad am leiniau ymyl gyda gordyfiant cafodd ei egluro fel cyfrifoldeb Conwy gan ein bod ni wedi cynnal ein toriad Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer yr Hydref eisoes.

2 Adroddiad gan Gynghorydd Sir bod CBSC yn ystyried gwaith ychwanegol yn ardal Ffordd yr Orsaf er mwyn arallgyfeirio dŵr tuag at geuffosydd Fictoraidd sy'n segur ar hyn o bryd. Bydd hyn yn diogelu'r ardal ymhellach rhag llifogydd.

3 Caiff yr adroddiad ymgynghori cyntaf ynghylch y cynllun cymunedol ei rhyddhau'n fuan. Gallwn fanteisio ar yr wybodaeth angenrheidiol sy'n sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r broses yn ffordd fwyaf teg posib er mwyn ymwneud â barnau'r holl breswylwyr.

4 Pryderon gan breswylwyr ar ran o Ffordd Penmaenmawr tuag at Pen Dalar am geir yn goryrru. Y Clerc i roi gwybod i GBSC. Soniwyd y bu i'r Cyngor Tref geisio ffurfio grŵp gwirfoddol Cadw Llygaid ar Gyflymder yn 2019 ond nid oedd modd inni recriwtio'r 9 gwirfoddolwr cymunedol oedd yn ofynnol. Mae'n bosib y gallwn ni ailgydio yn y syniad pe bai diddordeb gan breswylwyr yr ardal.

87. Bu i'r cyfarfod ddod i ben am 9:15yh.

Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod Llawn y Cyngor Tref Nos Fercher, Medi'r 22ain 2021 am 7yh yn Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan – Siambr y Cyngor. Bydd rheoliadau Covid -19 ar waith, os byddai'r pandemig Covid-19 yn caniatáu inni barhau